UK Health Security Agency

# Monitro clwyfau llawfeddygol am haint

## Gwybodaeth i gleifion







Mae'r daflen hon yn esbonio haint clwyfau llawfeddygol a'r rhaglen genedlaethol ar gyfer monitro heintiau a geir mewn ysbytai

# Beth yw heintiau clwyfau llawfeddygol?

Mae'r rhan fwyaf o glwyfau llawfeddygol yn gwella'n gyflym heb gymhlethdodau. Mae lleiafrif o glwyfau llawfeddygol yn cael eu cymhlethu gan haint. Mae hyn yn digwydd pan fydd germau (micro-organebau fel bacteria) yn mynd i mewn i'r toriad (briw) y mae'r llawfeddyg yn ei wneud trwy eich croen i wneud y llawdriniaeth.

Mae llawer o germau yn byw yn ac ar ein cyrff a hefyd yn ein hamgylchedd. Mae'r rhan fwyaf yn ddiniwed neu hyd yn oed yn ddefnyddiol. Mae gan ein cyrff amddiffynfeydd naturiol yn erbyn y germau a all achosi niwed. Mae ein croen fel arfer yn atal germau rhag mynd i mewn i'n cyrff, ond gall unrhyw doriad yn y croen (boed oherwydd anaf neu doriad llawfeddygol) ganiatáu iddynt fynd i mewn ac achosi haint.

# Pryd mae'r heintiau hyn yn datblygu?

Gall haint clwyf llawfeddygol ddatblygu unrhyw bryd o ddau i dri diwrnod ar ôl llawdriniaeth nes bod y clwyf wedi gwella (fel arfer dwy i dair wythnos ar ôl y llawdriniaeth). Yn achlysurol iawn, gall haint ddigwydd sawl mis ar ôl llawdriniaeth.

Mae heintiau clwyfau llawfeddygol yn anghyffredin (gweler y tabl). Mae'r rhan fwyaf o heintiau clwyfau llawfeddygol yn gyfyngedig i'r croen, ond gallant ledaenu i feinweoedd dyfnach o bryd i'w gilydd. Mae heintiau yn fwy tebygol o ddigwydd ar ôl llawdriniaeth ar rannau o'r corff sy'n cynnwys llawer o germau, fel y perfedd.

### Cyfraddau heintiau llawfeddygol mewn gwahanol fathau o lawdriniaethau

| Math o lawdriniaeth | Nifer cyfartalog y clwyfau heintiedig ym mhob 100 llawdriniaeth* |
|---|---|
| Amnewid cymal pen-glin | Llai na 1 |
| Amnewid cymal clun | Llai na 1 |
| Hysterectomi abdomenol | 2 |
| Llawdriniaeth fasgwlaidd | 2 |
| Impiad i ddargyfeirio'r rhydwelïau coronaidd | 3 |
| Llawdriniaeth ar y coluddyn (perfedd) mawr | 9 |

* clwyfau heintiedig yn cael eu canfod tra bod cleifion yn yr ysbyty neu'n cael eu haildderbyn yn dilyn y llawdriniaeth.
Ffynhonnell data: UKHSA. Surveillance of Surgical Site Infections in NHS Hospitals in England.

# Sut bydd fy nghlwyf yn cael ei fonitro?

Yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty, bydd y nyrs sy'n newid gorchuddion eich clwyf yn gwirio am unrhyw arwyddion o haint. Os ydych yn pryderu am eich clwyf, dywedwch wrth y nyrs sy'n gofalu amdanoch. Peidiwch â chael eich temtio i dynnu eich gorchudd, na chyffwrdd â'ch clwyf neu ddraen eich clwyf. Gallech drosglwyddo germau o'ch bysedd i'ch clwyf yn ddamweiniol.

Gall haint ddatblygu ar ôl i chi adael yr ysbyty. Disgwylir rhywfaint o gochni a chwydd ar ôl llawdriniaeth, ond efallai y bydd haint arnoch os byddwch yn datblygu un neu fwy o'r symptomau canlynol:

- mae'r croen o amgylch eich clwyf yn mynd yn goch neu'n ddolurus ac nid ydych chi'n meddwl ei fod yn rhan o'r broses iachάu clwyf arferol, neu ei fod yn teimlo'n boeth ac wedi chwyddo
- mae gan eich clwyf redlif o liw gwyrdd neu felyn (crawn)
- rydych yn teimlo'n sâl yn gyffredinol neu â thwymyn, neu os oes gennych dymheredd

Os oes gennych broblem gyda'ch clwyf, cysylltwch â'ch meddyg teulu oni bai y dywedwyd wrthych am gysylltu â'r ysbyty. Tua mis ar ôl eich llawdriniaeth efallai y byddwch yn derbyn holiadur (papur, e-bost neu neges destun) neu alwad ffôn gan yr ysbyty i ofyn a oes gennych broblemau gyda'ch clwyf. Mae llawer o gleifion yn gadael yr ysbyty yn fuan ar ôl eu llawdriniaeth ac mae angen i staff ysbytai ddod i wybod am heintiau clwyfau sy'n digwydd ar ôl i gleifion adael yr ysbyty, nid dim ond y rhai sy'n datblygu tra bod cleifion yn yr ysbyty.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn datblygu symptomau?

Bydd eich ysbyty yn casglu gwybodaeth am eich llawdriniaeth ac yn monitro eich clwyf am arwyddion o haint. Os bydd y nyrs, y fydwraig neu'r meddyg yn amau bod gennych haint clwyf llawfeddygol, gallant gymryd sampl o wyneb eich clwyf gyda swab a'i anfon i'r labordy am brofion. Gall eich nyrs neu feddyg ragnodi triniaeth â gwrthfiotigau. Mae'r wybodaeth a gesglir am eich llawdriniaeth yn cael ei defnyddio gan yr ysbyty i roi'r gofal unigol gorau i chi.

## Gyda phwy fydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?

Mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yn gyfrifol am edrych ar heintiau clwyfau llawfeddygol mewn ysbytai ledled Lloegr. I helpu gyda hyn, mae eich ysbyty yn rhannu gwybodaeth bersonol am eich llawdriniaeth ag UKHSA, gan gynnwys eich enw, dyddiad geni, rhyw a rhif GIG. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu am eich risg o ddatblygu haint clwyf llawfeddygol, gan gynnwys:

- lefel gyffredinol eich iechyd cyn eich llawdriniaeth
- gwybodaeth am eich llawdriniaeth
- gwybodaeth am unrhyw heintiau y gallech fod wedi eu cael yn dilyn eich llawdriniaeth

Mae angen i UKHSA ddefnyddio gwybodaeth bersonol i wirio ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gawn gan eich ysbyty a gwneud yn siŵr nad ydym yn cyfrif cleifion fwy nag unwaith. Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu â chofnodion y GIG i weld a ydych yn cael eich aildderbyn i'r ysbyty ar ôl eich llawdriniaeth, ac a oes gennych unrhyw ffactorau risg ar gyfer haint fel diabetes. Mae hyn yn helpu ein gwyddonwyr iechyd cyhoeddus i asesu cyfraddau heintiau llawfeddygol ysbytai ac yn helpu gwella'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Yn ogystal, rydym hefyd yn cysylltu â chofnodion marwolaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i weld a oes unrhyw gleifion â haint llawfeddygol yn marw o'r haint hwn.

Efallai y bydd eich gwybodaeth hefyd yn gysylltiedig â data labordy microbioleg a gedwir gan UKHSA i chwilio am ragor o wybodaeth am heintiau clinigol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cysylltu eich gwybodaeth â'r cofnodion a gedwir gan gofrestrfeydd clinigol eraill, sy'n cynnwys gwybodaeth lawfeddygol fanylach fel y mathau o fewnblaniadau llawfeddygol a ddefnyddir.

Mae'n bosibl y bydd eich rhif ffôn symudol a'ch cyfeiriad e-bost, neu'r rheini ar gyfer rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan, yn cael eu rhannu ag UKHSA. Mae hyn er mwyn i ni allu anfon holiadur gwella clwyfau atoch trwy e-bost neu neges destun i chi ei gwblhau a'i ddychwelyd i UKHSA.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am heintiau llawfeddygol?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am heintiau clwyfau llawfeddygol ar wefan UKHSA yn www.gov.uk/government/collections/surgical-site-infection-ssi-guidance-data-and-analysis

# Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am UKHSA?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae UKHSA yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i edrych ar heintiau clwyfau llawfeddygol yn www.gov.uk/guidance/surgical-site-infection-surveillance-privacy-notice

Cynhyrchwyd gan UKHSA ar gyfer cleifion y mae eu llawdriniaeth yn cael ei monitro dan Wasanaeth Arolygu Heintiau Safleoedd Llawfeddygol UKHSA.

| Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â: |
| --- |
| |

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn print bras ac yn yr ieithoedd canlynol, er enghraifft: Arabeg, Bengali, Tsieinëeg (Syml neu Draddodiadol), Gwjarati, Pwyleg, Pwnjabeg ac Wrdw. Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o www.gov.uk/ukhsa

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i OGL www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae UKHSA yn gyfrifol am ddiogelu pob aelod o bob cymuned rhag effaith clefydau heintus, digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear a bygythiadau iechyd eraill. Rydym yn darparu arweinyddiaeth ddeallusol, wyddonol a gweithredol ar lefel genedlaethol a lleol, yn ogystal ag ar y llwyfan byd-eang, i wneud iechyd y genedl yn ddiogel.

www.gov.uk/government/organisations/uk-health-security-agency

Ulotka ta jest również dostępna w języku polskim
ਇਹ ਪਰਚਾ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿੱਚ ਵੀ ਉਪਲਬੱਧ ਹੈ
এই প্রচারপত্রটি বাংলা ভাষায়ও পাওয়া যায়
આ પત્રિકા ગુજરાતી ભાષામાં પણ ઉપલબ્ધ છે
本宣传单还提供有中文(简体)版本
本宣傳單還提供有中文(繁體)版本

تتوفر هذه الكراسة أيضاً باللغة العربية.
یہ پرچہ اُردو میں بھی دستیاب ہے

© Crown copyright 2025

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r ddogfen hon, cysylltwch â:
ssi.data@ukhsa.gov.uk

Cyhoeddwyd: Mehefin 2025

Cyfeirnod cyhoeddi: GOV-11041

Lluniau © Shutterstock

Corporate member of Plain English Campaign
Committed to clearer communication
339

Mae UKHSA yn cefnogi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS